



# Adolygiad Blynnyddol Annual Review

2009-10



# Cymraeg





## Rhagair

Mae'n bleser gen i gyflwyno Adolygiad Blynnyddol y Bwrdd ar gyfer 2009-10.

Blwyddyn o ddatblygiadau gwleidyddol yn ymwneud â'r iaith fu hon yn bennaf. Ar ddechrau 2010 cwblhawyd y drefn o drosglwyddo pwerau deddfu ar y Gymraeg o San Steffan i'r Cynulliad, ac yn fuan wedi hynny cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad y Mesur Arfaethedig ar y Gymraeg.

## Foreword

It is my pleasure to present the Board's Annual Review for 2009-10.

This year there have been many developments regarding the Welsh language mainly in a political context. Early in 2010 the process of transferring legislative competence for the language from Westminster to Wales was completed, and soon afterwards the Welsh Assembly Government published the Proposed Welsh Language Measure.

**"Blwyddyn o ddatblygiadau gwleidyddol yn ymwneud â'r iaith fu hon yn bennaf."**

**"This year there have been many developments regarding the Welsh language mainly in a political context."**

Mae'r Mesur yn mynd ati i wireddu ymrwymiadau polisi Llywodraeth Cymru'n Un. Fel rwy'n ysgrifennu'r geiriau hyn, mae pwylgorau yn y Cynulliad yn archwilio cynnwys y Mesur, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd gan lu o sefydliadau ac unigolion, gan gynnwys y Bwrdd. Mae'n bosibl, felly, y gall y Mesur newid cyn ei dderbyn a'i basio.

Un peth sy'n weddol sicr am y dyfodol yw y bydd gan y gyfundrefn newydd, Comisiynydd y Gymraeg, bwerau rheoleiddio cryfach na sydd gan y Bwrdd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

The Measure sets about to deliver the policy commitments of the One Wales Government. As I write these words, audit committees in the Assembly are scrutinising the Measure, based on the evidence they gathered from numerous organisations and individuals, including the Welsh Language Board. It is possible therefore that the Measure could change before being accepted and passed.

One thing which is fairly certain about the future is that the new system, the Welsh Language Commissioner, will have stronger regulatory powers than the Board has under the 1993 Act.

Mae'r gwaith mae swyddogion y Bwrdd wedi ei wneud o ran cynyddu defnydd o'r Gymraeg, a hynny gyda phwerau rheoleiddio cyfyngedig, yn rhagorol.

Considering the limited regulatory powers, the Welsh Language Board staff has managed to do excellent work in increasing the use of the language.

"Mae'r gwaith mae swyddogion y Bwrdd wedi ei wneud o ran cynyddu defnydd o'r Gymraeg, a hynny gyda phwerau rheoleiddio cyfyngedig, yn rhagorol."

"Considering the limited regulatory powers, the Welsh Language Board staff has managed to do excellent work in increasing the use of the language."

Ond, mi wn eu bod nhw, a ninnau fel aelodau, wedi teimlo rhwystredigaeth ar brydiau oherwydd y diffyg grym gorfodi. Wrth edrych ymlaen, rwy'n gobeithio y bydd gan y Comisiynydd newydd, pwy bynnag y bo, yr ewyllys i ddefnyddio'r llais a'r pwerau fydd ganddo neu ganddi er budd siaradwyr Cymraeg. Nid biwrocrat sydd ei angen ar y Gymraeg, ond eiriolwr cryf a fydd yn sicrhau chwarae teg a hawliau i siaradwyr Cymraeg.

But I know that they, and we as members of the Board, have become frustrated at times because of the lack of enforcement powers. Looking forward, I hope that the new Commissioner, whomsoever he or she will be, will use their voice and powers in the interest of Welsh speakers. It's not a bureaucrat we need but a strong advocate who will ensure fair play and rights for Welsh speakers.

"Nid biwrocrat sydd ei angen ar y Gymraeg, ond eiriolwr cryf a fydd yn sicrhau chwarae teg a hawliau i siaradwyr Cymraeg."

"It's not a bureaucrat we need but a strong advocate who will ensure fair play and rights for Welsh speakers."

Yn gynharach eleni, fe gefais i a saith o aelodau'r Bwrdd ein hailbenodi i dymor arall. Dymunaf ddiolch i'r tri cyn-aelod o'r Bwrdd y daeth eu tymor i ben, sef Yr Athro Colin Williams, Rhiannon Walters a Dr Arun Midha. Dros y blynnyddoedd, bu arbenigedd y tri ohonynt yn wirioneddol werthfawr i ni fel Bwrdd, a dymunaf yn dda iddynt yn y dyfodol.

Wrth gloi, hoffwn estyn fy niolch i'r Prif Weithredwr a'r holl swyddogion am eu gwaith caled yn ystod y flwyddyn. Nid yw'n hawdd cadw momentwm mewn cyfnod o ansicrwydd, ond mae'r un lefel uchel o frwdfrydedd, gweledigaeth ac angerdd i'w gweld yn eu gwaith ag erioed, ac mae ffrwyth eu hymdreichion i'w gweld bob dydd ym mhob rhan o Gymru, gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau siaradwyr Cymraeg.

**Meri Huws**

**Cadeirydd**

Earlier this year, seven Board members and I were reappointed for another term. I wish to thank the three former members whose term came to an end - Professor Colin Williams, Rhiannon Walters and Dr Arun Midha for their service. Over the years, their expertise was a highly valuable asset to the Board, and I wish them well in the future.

I extend my thanks to the Chief Executive and his staff for their hard work during the year. It's not easy to keep momentum going at a time of uncertainty, but the same high level as ever of enthusiasm, vision and passion can be seen in their work. The results of their efforts can be seen every day in every part of Wales, making a real difference to the lives of Welsh speakers.

**Meri Huws**

**Chair**



## **Y Bwrdd**

Mae Bwrdd yr iaith Gymraeg yn gorff statudol a noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ei brif swyddogaeth yw hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg.

Penodir aelodau'r Bwrdd gan Weinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru dros Dreftadaeth. Ar ddechrau'r cyfnod adrodd roedd gan y Bwrdd 11 aelod. Ailbenodwyd Cadeirydd a saith aelod o'r Bwrdd ym mis Mawrth 2010. Daeth cyfnod tri aelod i ben.

### **Yr aelodau'n ystod y cyfnod adrodd oedd:**

#### **Meri Huws (Cadeirydd)**

Dirprwy Is-Ganghellor, Prifysgol y Drindod Dewi Sant

#### **Nick Bennett**

Prif Weithredwr, Cartrefi Cymunedol Cymru

#### **Owen Evans**

Cyfarwyddwr dros Gymru, Busnes yn y Gymuned

#### **Gwyneth Morus Jones**

Cyn-lywydd Cenedlaethol Merched y Wawr a chyn-gadeirydd Mudiad Ysgolion Meithrin

#### **Huw Jones**

Ymgynghorydd Annibynnol a chyn-Brif Weithredwr S4C (1994-2005)

#### **Dr Arun Midha\***

Ymgynghorydd Annibynnol

#### **Marc Phillips**

Pennaeth Cymru, Cronfa Plant Mewn Angen y BBC

#### **Catherine Rees**

Dirprwy Brif Weithredwr, Menter a Busnes

#### **Rhiannon Walters\***

Athrawes Fro, Cyngor, Sir Powys

#### **Yr Athro Colin Williams\***

Athro mewn Sosioieithyddiaeth, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

#### **Elin Wyn**

Rheolwr cwmni hyfforddiant newyddiadurol a chyfryngol

\* Cyfnod fel aelod wedi dod i ben ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

Mae disgwyl i'r Cadeirydd neilltuo dau ddiwrnod yr wythnos i faterion y Bwrdd, gyda'r aelodau'n neilltuo dau ddiwrnod y mis.

## The Board

The Welsh Language Board is a statutory body sponsored by the Welsh Assembly Government. Its main function is to promote and facilitate the use of the Welsh language.

Board members are appointed by the Welsh Assembly Government Minister for Heritage. At the beginning of the reporting period the Board had 11 members. The Chair and seven members of the Board were reappointed in March 2010. The period of service of three members came to an end.

### **The members during the reporting period were:**

#### **Meri Huws (Chair)**

Deputy Vice-Chancellor, Trinity Saint David University

#### **Nick Bennett**

Chief Executive, Community Housing Wales

#### **Owen Evans**

Director for Wales, Business in the Community

#### **Gwyneth Morus Jones**

Former National President of Merched y Wawr and former Chair of Mudiad Ysgolion Meithrin

#### **Huw Jones**

Independent Consultant and former Chief Executive of S4C (1994-2005)

#### **Dr Arun Midha\***

Independent Consultant

#### **Marc Phillips**

National Head of BBC Children in Need, Wales

#### **Catherine Rees**

Deputy Chief Executive, Menter a Busnes

#### **Rhiannon Walters\***

Athrawes Fro (Community Teacher), Powys County Council

#### **Professor Colin Williams\***

Research Professor in Sociolinguistics, School of Welsh, Cardiff University

#### **Elin Wyn**

Manager of journalism and media training company

\* Term of service as a member ended at the end of the reporting period.

The Chair is expected to devote two days a week to Board matters, with the members devoting two days a month.

## Neges y Prif Weithredwr

Mae gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg enw da yng Nghymru ac yn rhyngwladol fel arloeswr cynllunio ieithyddol, ac mae gwledydd eraill yn troi atom i efelychu ein prosiectau a'n dull o weithredu.

## Message from the Chief Executive

The Welsh Language Board is renowned both in Wales and internationally as a language planning innovator, and other countries turn to us to emulate our projects and approach.

“Mae gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg enw da yng Nghymru ac yn rhyngwladol fel arloeswr cynllunio ieithyddol, ac mae gwledydd eraill yn troi atom i efelychu ein prosiectau a'n dull o weithredu.”

“The Welsh Language Board is renowned both in Wales and internationally as a language planning innovator, and other countries turn to us to emulate our projects and approach.”

Mae'r diolch am hyn i'r tîm o staff yn ein swyddfeydd ledled Cymru; staff sy'n arloesi yn eu gwaith bob dydd, ac sy'n barod i wynebu bob her er mwyn sicrhau dyfodol y Gymraeg. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch iddynt unwaith eto am eu dycnwch a'u blaengaredd wrth eu gwaith.

Bu 2009-10 yn flwyddyn lwyddiannus i ni. Cytunwyd y nifer uchaf erioed o gynlluniau iaith newydd; cynlluniau sy'n mynd ati o ddifrif i gynnig gwasanaethau eang trwy gyfrwng y Gymraeg – i'r cyhoedd ac i'r staff yn y sefydliadau

This is due to the work of our staff in offices throughout Wales, staff who are pioneers in their fields and who are willing to take on any challenge in order to secure the future and vitality of the Welsh language. I would like to take this opportunity to thank them once again for their persistence and progressiveness in their work.

2009-10 was a successful year for us. More new Welsh language schemes than ever were agreed; schemes which really get to grips with offering a wide range of Welsh-medium services both

“Cytunwyd y nifer uchaf erioed o gynlluniau iaith newydd.”

“More new Welsh language schemes than ever were agreed.”

hynny. Cynhaliwyd hefyd sawl ymchwiliad a oedd yn edrych ar allu cyrff i gadw at ymrwymiadau eu cynlluniau iaith. Ymysg yr ymchwiliadau hynny, bu ymchwiliad i ddarpariaeth iechyd meddwl cyfrwng Cymraeg, ffurflenni pleidleisio post dwyieithog a darpariaeth therapi lleferydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Dyma lond llaw o enghreifftiau lle bu i'r Bwrdd weithredu ar ran siaradwyr Cymraeg, i gael mynediad at wasanaethau hanfodol yn eu dewis iaith.

to the public and to the staff working in those organisations. We also completed a number of investigations looking at organisations' ability to adhere to the commitments of their Welsh language schemes. The investigations included mental health provision through the medium of Welsh, bilingual postal voting forms and the provision of speech therapy in Welsh. Those are only a handful of examples where the Board acted on behalf of Welsh speakers so they may access essential services in their language of choice.

**"Bu i'r Bwrdd weithredu ar ran siaradwyr Cymraeg, i gael mynediad at wasanaethau hanfodol yn eu dewis iaith."**

**"The Board acted on behalf of Welsh speakers so they may access essential services in their language of choice."**

Ochr arall y geiniog gyda gwaith y Bwrdd yw'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg. Da gweld fod gymaint o fusnesau erbyn hyn yn awchus i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg, ac yn cynllunio'r ddarpariaeth yn strategol trwy gyfrwng polisiau iaith. Yn yr Adolygiad Blynnyddol hwn, cewch ddarllet am brofiad rhai busnesau wrth lunio a gweithredu polisiau iaith, yn ogystal â gweld sut mae'r Bwrdd yn mynd ati i gynyddu defnydd o'r Gymraeg ar lefel gymunedol ac yn y cartref, mewn technoleg ac yn y byd addysg.

The other side to the Board's work is promoting the language. It's fantastic that so many businesses are now keen to develop their use of Welsh and plan their bilingual provision strategically through Welsh language policies. In this Annual Report you can read about the experiences of some businesses in developing and implementing their Welsh language policies. The Report also illustrates how the Board encourages the increase of Welsh in the community, at home, in technology and in education.

“Da gweld fod gymaint o fusnesau erbyn hyn yn awchus i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.”

“It's fantastic that so many businesses are now keen to develop their use of Welsh.”

Yr her fwyaf o ran sicrhau dyfodol y Gymraeg yw gwneud yn siŵr fod pobl ifanc nid yn unig yn medru siarad yr iaith ond eu bod nhw'n dewis gwneud hynny gyda'i gilydd. Mewn oes lle mae dylanwad y diwylliant Eingl-Americanaid mor drwm, mae angen i ni fod yn greadigol wrth gynyddu'r cyfleoedd i gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg. Un peth sy'n bendant; mae pobl ifanc yn fwy tebygol o ddilyn esiampl eu cyfoedion nag ydyn nhw o ddilyn esiampl y genhedlaeth hŷn, a dyna pam rydyn ni wedi rhoi'r cyfrifoldeb o annog defnydd o'r Gymraeg yn nwylo'r bobl ifanc eu hunain. Trwy'r Prosiect Cefnogi Arferion Iaith, y disgylion ac nid yr athrawon sy'n gyfrifol am gynnal gweithgareddau cymdeithasol yn Gymraeg mewn ysgolion, ac mae'r adborth rydym ni'n ei dderbyn am y prosiect yn gadarnhaol iawn. Edrychaf ymlaen at weld y gwaith hwn yn datblygu ymhellach y flwyddyn nesaf.

The biggest challenge in securing the future of the language is by ensuring that young people not only can speak Welsh, but that they choose to speak it with each other. In an age so heavily influenced by Anglo-American culture, we need to be creative in our quest to create more opportunities for people to socialise in Welsh. One thing is certain; young people are much more likely to follow the example of their peers than that of the older generations, and that is why we have placed the responsibility of encouraging the use of Welsh in the hands of young people themselves. Through the Language Practices' Support Project, it's the pupils themselves who are responsible for holding social activities in Welsh, and the feedback we have received from the schools is very positive. I look forward to seeing this work being developed further over the next year.

“Yr her fwyaf o ran sicrhau dyfodol y Gymraeg yw gwneud yn siŵr fod pobl ifanc nid yn unig yn medru siarad yr iaith ond eu bod nhw'n dewis gwneud hynny gyda'i gilydd.”

“The biggest challenge in securing the future of the language is by ensuring that young people not only can speak Welsh, but that they choose to speak it with each other.”

Cyn cloi, hoffwn ddweud gair am ddatblygiad newydd sydd ar droed, sef prosiect o gynllunio ieithyddol cyfannol mewn ardal benodol yn y De-orllewin lle mae'r Gymraeg yn colli tir. O fuddsoddi adnoddau yn yr ardal a chydweithio gyda phartneriaid cymunedol, ein nod yw newid y duedd ieithyddol, ac adfer y Gymraeg yn iaith naturiol, bob dydd, yn y gymuned. Mae prosiect o'r math hwn yn waith hirdymor, a fy ngobaith yw y bydd unrhyw gyfundrefn newydd a gaiff ei sefydlu o ganlyniad i'r Mesur yn parhau â'r gwaith pwysig hwn, ac yn estyn y prosiect i gymunedau eraill tebyg.

I'd like to say a quick word about a new development in the pipeline, an integrated language planning project in an area of South West Wales where the Welsh language is in decline. By investing resources in the area and working with community-based partners, our aim is to change the language trend, and restore Welsh as the natural day-to-day language of the community. It's still early days, but we look at this as a long term project, and I hope that whatever provision will follow the Welsh Language Board will continue with this important work and extend the project to similar areas.

“Ein nod yw newid y duedd ieithyddol, ac adfer y Gymraeg yn iaith naturiol, bob dydd, yn y gymuned.”

“Our aim is to change the language trend, and restore Welsh as the natural day-to-day language of the community.”

“Rhwydweithio, creu a chynnal perthynas a gweithio'n gyson ar lawr gwlad yw'r unig ffordd o sicrhau y bydd pobl yn parhau i ddewis siarad Cymraeg gyda'i gilydd.”

“Continuous networking and building relationships at grass-roots level is the only way to ensure that people will continue to choose to speak Welsh with each other.”

Does ond hyn a hyn y gall deddfwriaeth ei wneud i ddiogelu iaith mewn gwirionedd. Mae'n hollbwysig bod dyfodol y gwaith o hyrwyddo'r iaith yn cael ystyriaeth yr un mor fanwl. Rhwydweithio, creu a chynnal perthynas a gweithio'n gyson ar lawr gwlad yw'r unig ffordd o sicrhau y bydd pobl yn parhau i ddewis siarad Cymraeg gyda'i gilydd; gwaith a wnaeth y Bwrdd yn arbennig o dda dros y blynnyddoedd. Hyn fydd yn diogelu'r iaith i'r cenedlaethau a ddaw.

**Meirion Prys Jones**

**Prif Weithredwr**

In truth, there's only so much that legislation can do to secure a language. It's vital, therefore, that the promotion work and its future is given close consideration. Continuous networking and building relationships at grass-roots level is the only way to ensure that people will continue to choose to speak Welsh with each other; work that has been done successfully by the Board over the years. It is only this which will safeguard the language for future generations.

**Meirion Prys Jones**

**Prif Weithredwr**



## Cyfarfodydd

Rhwng Ebrill 2009 a Mawrth 2010 cynhaliodd y Bwrdd bedwar cyfarfod agored yn:

- **Pwllheli;**  
19 Mehefin 2009
- **Aberteifi;**  
25 Medi 2009
- **Glyn Ebwy;**  
27 Tachwedd 2009
- **Llangollen;**  
5 Mawrth 2010

Cynhaliwyd cyfarfod caeedig yng **Nghaerdydd** ar 26 Tachwedd 2009 i drafod ceisiadau grant.

Cyhoeddir manylion pob cyfarfod agored ymlaen llaw ar wefan y Bwrdd.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd sefydlu Pwyllgor Archwilio. Cynhaliwyd dau gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio yn ystod 2009-10.

## Meetings

Between April 2009 and March 2010 the Board held four open meetings at:

- **Pwllheli;**  
19 June 2009
- **Cardigan;**  
25 September 2009
- **Ebbw Vale;**  
27 November 2009
- **Llangollen;**  
5 March 2010

A closed meeting was held in **Cardiff** on 26 November 2009 to discuss grant applications.

The details of all open meetings are published in advance on the Board's website.

The Board is required to establish an Audit Committee. Two meetings of the Audit Committee were held during 2009-10.

## Staff

Yn ystod 2009-10 nifer cyfartalog staff llawn amser y Bwrdd oedd 77.

## Staff

During 2009-10 the average number of the Board's staff (full-time equivalents) was 77.

## **Swyddfeydd rhanbarthol**

Mae gan y Bwrdd swyddfeydd rhanbarthol yng Nghaerfyrddin a Chaernarfon, yn ogystal â nifer o swyddfeydd lleol eraill ar draws y wlad lle mae swyddogion Cynlluniau Gweithredu laith yn gweithredu.

**Os ydych am wybod rhagor am y Bwrdd, neu am unrhyw agwedd ar ein gwaith, cysylltwch â ni:**

**Bwrdd yr Iaith Gymraeg**  
**Siambrau'r Farchnad**  
**5-7 Heol Eglwys Fair**  
**Caerdydd**  
**CF10 1AT**  
**Ffôn: 029 2087 8000**  
**Ffacs: 029 2087 8001**  
**[post@byig-wlb.org.uk](mailto:post@byig-wlb.org.uk)**  
**[www.byig-wlb.org.uk](http://www.byig-wlb.org.uk)**

## **Regional offices**

The Board has regional offices in Carmarthen and Caernarfon, as well as a number of other local offices across the country where Language Action Plans operate.

**If you wish to know more about the Board, or about any aspect of our work, please contact us:**

**The Welsh Language Board**  
**Market Chambers**  
**5-7 St Mary Street**  
**Cardiff**  
**CF10 1AT**  
**Phone: 029 2087 8000**  
**Fax: 029 2087 8001**  
**[post@byig-wlb.org.uk](mailto:post@byig-wlb.org.uk)**  
**[www.byig-wlb.org.uk](http://www.byig-wlb.org.uk)**

Cynlluniau Iaith

Language Schemes

## **Ymestyn dylanwad cynlluniau iaith**


Pwrpas cynllun iaith yw egluro sut bydd sefydliadau'n mynd ati i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau. Mae pob cynllun drafft yn mynd trwy gyfnod o ymgynghori cyhoeddus cyn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

## **Extending the influence of language schemes**

The purpose of a language scheme is to explain how an organisation will treat the Welsh and English languages on the basis of equality when providing services. All draft schemes undergo a period of public consultation before they are approved by the Board.

### **Cynlluniau iaith Newydd**

### **New Language Schemes**



Roedd 487 o gynlluniau iaith sector cyhoeddus yn weithredol yn ystod 2009-10, a 76 o gynlluniau iaith yn y sector gwirfoddol.

487 public sector language schemes were operational during 2009-10 plus 76 language schemes in the voluntary sector.

## Diwygio cynlluniau iaith

**Diwygiwyd 46 o gynlluniau iaith yn 2009-10.**

Mae'r Bwrdd yn dymuno gweld ymrwymiadau mewn cynlluniau iaith yn cryfhau pan gânt eu diwygio. Ar y gorau bydd sefydliadau'n mynd ymhellach na gofynion Deddf yr iaith Gymraeg 1993, e.e. gweinyddu mewnol trwy gyfrwng y Gymraeg a chyhoeddi hawliau iaith.

## Updating language schemes

**46 language schemes were updated in 2009-10.**

The Board wishes to see commitments in language schemes being strengthened when they are updated. At best, organisations go further than the requirements of the Welsh Language Act 1993, e.g. internal administration through the medium of Welsh and declaring language rights.



“Mae'r Cyngor yn hollo gefnogol i'w staff ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg yn eu gwaith beunyddiol, boed yn siaradwyr Cymraeg neu'n ddysgwyr.”

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

“The Council fully supports its staff to use their Welsh language skills in their daily work, wherether they are fluent Welsh speakers or Welsh learners.”

Caerphilly County Borough Council





GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd  
Hywel Dda  
Health Board

“Bydd y Bwrdd Iechyd yn datblygu datganiad polisi fydd yn hyrwyddo amgylchfyd positif o fewn y sefydliad i staff gael defnyddio'r iaith Gymraeg yn ffurfiol neu'n anffurfiol yn y gweithle.

“Er mwyn hwyluso'n staff i ddefnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith byddwn yn gosod y pecyn gwirio sillafu a therminoleg Cysgair ar gyfrifiaduron ynghyd â rhyngwyneb Cymraeg Microsoft.”

Bwrdd Iechyd Hywel Dda

“The Health Board will develop a policy statement that will promote a positive environment within the organisation for employees to use the Welsh Language formally or informally in the workplace.

“The Health Board will facilitate the use of the Welsh language by staff through placing the spell checker and terminology package Cysgair on all computers along with Microsoft's Welsh interface.”

Hywel Dda Health Board




## Gweithleoedd dwyieithog

Mae nifer o sefydliadau yng Nghymru eisoes yn defnyddio'r Gymraeg o fewn y gweithle.

## Bilingual workplaces

A number of organisations in Wales already use the Welsh language in the workplace.



Rydym yn credu ei bod hi'n bwysig i hyrwyddo'r iaith yn y gweithle yn ogystal ag yn y cartref a'r gymuned, oherwydd gall cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle arwain at wasanaeth o well safon i gwsmeriaid a gwneud cyfraniad allweddol i ddatblygu gweithlu sgilgar, hyblyg a hyderus.

Yn ystod 2009-10 rhoddodd y Bwrdd gefnogaeth ymarferol ac ariannol i sefydliadau i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithleoedd.

The Board believes it is important to promote the use of the language in the workplace as well as in the home and community, because increasing the use of Welsh in the workplace could lead to a better standard of service for customers as well as making a key contribution to the development of a skilled, flexible and confident workforce.

During 2009-10 the Board gave practical and financial support to organisations to develop the use of Welsh in their workplaces.



“Bydd y Cyngor yn anelu at sicrhau bod cyfran gynyddol o siaradwyr Cymraeg ymhliith yr Uwch Reolwyr a'r arweinwyr timau, fel bod modd i'r cyhoedd, cyrff eraill a staff y Cyngor gyfathrebu ag uwch reolwyr ac arweinwyr timau yn y Grwpiau a'r Rhanbarthau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl eu dewis.”

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

“The Council will also seek to ensure an increasing proportion of Welsh speakers among its Senior Managers and team leaders, with the aim of enabling the public, other organisations and Council staff to communicate with the senior management and team leaders of all Groups and Regions through the medium of Welsh or English according to their choice.”

Countryside Council for Wales



## Mae gen ti ddewis...

Yn ystod y flwyddyn, bu'r Bwrdd yn gweithio gyda 14 o gyrff ar hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg.

Mae'r ymgyrch gyffredinol wedi ei chryfhau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys hysbysebion ar y teledu, ar y radio ac ar y we. Un datblygiad arwyddocaol yn ystod y flwyddyn fu creu tudalen Facebook. Mae'r dudalen wedi denu dros 1,300 o gefnogwyr, ac yn safle rhyngweithiol bywiog i bobl sydd â diddordeb mewn gwasanaethau Cymraeg.

## Mae gen ti ddewis...

During the year, the Board worked with 14 bodies on promoting their Welsh services.

The general campaign has been strengthened during the year, including advertising on television, radio and the internet. One significant development last year has been the creation of a Facebook page. The page has attracted over 1,300 supporters, and is a lively networking site for people interested in Welsh language services.

## mae gen ti ddewis...

...i ddefnyddio gwasanaethau **Cymraeg**  
...to use **Welsh language** services

dewis.org.uk



Cofia wrando am y dewis  
Listen for the choice



Cofia glicio ar y dewis  
Click on the choice



Cofia edrych am y dewis  
Look for the choice



“Mae'r tri gwasanaeth Tân ac achub yng Nghymru yn cydnabod bod cyfran uchel o Gymry Cymraeg yn y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu, a'i bod yn bwysig ein bod yn gallu cynnig dewis i'n trigolion gyfathrebu yn Gymraeg.

“I'ch cofrestru eich hun, aelod o'ch teulu, ffrind neu gymydog i gael archwiliad diogelwch Tân yn y cartref am ddim, ffoniwch ein rhif rhadffôn 24 awr ar 0800 169 1234. Gallai un alwad arbed eich bywyd chi a bywydau eich anwyliaid.

“Byddem ni'n annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn - mae pob gwasanaeth sy'n cael ei hyrwyddo trwy'r fenter 'mae gen ti ddewis...' yn hawdd ei ddefnyddio, ac mae'n cael ei gefnogi gan gyrrff cyhoeddus sy'n awyddus i bobl ddefnyddio'r gwasanaethau sydd ar gael.”

“All three fire and rescue services in Wales recognise that the communities we serve have a high proportion of Welsh speakers and that it is important we can offer our residents the option of communicating in Welsh.

“To register yourself, a member of your family, friend or neighbour for a free home fire safety check, phone our 24 hour hotline on 0800 169 1234. One call could save your life and the lives of your loved ones.

“We would urge Welsh speakers to make use of this service - any service promoted through the 'mae gen ti ddewis.' initiative is easy to use and is supported by public bodies who are keen for people to make use of the services on offer.”

Gwelodd Dŵr Cymru gynnydd yn y defnydd o'i wasanaethau Cymraeg bron yn syth ar ôl cydweithio â'r Bwrdd. Ar ôl blwyddyn roedd cynnydd o 24% sef dros 2,000 yn fwy o alwadau i wasanaeth Cymraeg y cwmni.

Welsh Water saw an increase in the use of its Welsh language services immediately after working with the Board. After a year, an increase of 24% was seen, namely over 2,000 more calls to the company's.



## Y Gymraeg a'r Trydydd Sector


Cymeradwywyd 10 cynllun iaith gwirfoddol newydd a diwygiwyd 8 cynllun iaith gwirfoddol.

## Welsh and the Third Sector

10 new schemes were approved and 8 schemes were updated in the voluntary sector.

Gweinyddwyd y Gronfa Ddatblygu Trydydd Sector gan Estyn Llaw ar ran y Bwrdd. Rhoddywyd cefnogaeth ariannol i 8 prosiect i gynyddu dwyieithrwydd yn y trydydd sector, gyda ffocws arbennig ar ddenu mwy o wyrfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg

The Third Sector Development Fund was administrated by Estyn Llaw on behalf of the Board. Financial support was given to 8 projects to increase bilingualism in the third sector, with particular focus on attracting more volunteers who speak Welsh.



## Cwynion ac Ymchwiliadau

Er yr holl waith da sy'n digwydd yn y sector cyhoeddus, mae rhai sefydliadau sy'n methu â chydymffurfio ag ymrwymiadau eu cynlluniau iaith. Ymdriniwyd â 186 o gwynion gan y cyhoedd yn ystod y flwyddyn, cynnydd o 75% o'i gymharu â'r 106 cwyn y deliwyd â hwy y flwyddyn flaenorol. Ar gyfartaledd, cafodd y cwynion eu datrys cyn pen cyfnod o ddau fis.

## Complaints and Investigations

Despite all the good work taking place in the public sector, some organisations do sometimes fail to comply with the commitments of their language schemes. During the year, the Board dealt with 186 complaints from the public about the lack of Welsh language services, an increase of 75% compared to the 106 complaints dealt with the previous year. The complaints were solved within a period of two months, on average.

**Dim gwasanaeth  
Cymraeg?**

Dweud eich dweud...

**No Welsh language service?**

Have your say...

Am gyngor:  
For advice:

029 2087 8000  
[post@byig-wlb.org.uk](mailto:post@byig-wlb.org.uk)  
[www.byig-wlb.org.uk](http://www.byig-wlb.org.uk)



BWRDD YR IAITH  
GYMRAEG • WELSH  
LANGUAGE BOARD

Wrth ddelio â sefyllfaoedd lle mae amheuaeth bod corff yn torri ei gynllun iaith, mae'n well gan y Bwrdd ddelio â'r mater yn anffurfiol, gan ddod i ddatrysiaid yn gyflym ac adfer y gwasanaeth Cymraeg cyn gynted â phosibl. Lle nad yw hyn yn bosibl, mae'r Bwrdd yn defnyddio'i bŵer statudol i gynnal ymchwiliad i'r mater.

When dealing with situations where there is suspicion that a body is in breach of its language scheme, the Board prefers to deal with the matter informally, reaching a speedy solution and restoring the Welsh language service as soon as possible. Where this is not possible, the Board uses its statutory power to conduct an investigation into the matter.

Derbyniwyd cwyn nad oedd swyddfa gofrestru yn fodlon cynnal seremoni briodas yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn sgil ymyrraeth gan y Bwrdd, cafodd yr achwynnydd seremoni uniaith Gymraeg.

A complaint was received that a registry office was not willing to conduct a marriage ceremony entirely through the medium of Welsh. As the result of the Board's intervention, the complainant received a fully Welsh ceremony.



Derbyniwyd cwyn am ddiffyg argaeledd therapydd iaith a fedrai siarad Cymraeg ar gyfer plentyn. Cytunwyd nifer o gamau gwella gyda'r Bwrdd Iechyd perthnasol. Cynigwyd therapydd Cymraeg ei iaith i'r achwynnydd a sicrhawyd argaeledd gwasanaeth Cymraeg o hynny ymlaen.

A complaint was received about the lack of a language therapist who could speak Welsh for a child. A number of improvements were agreed with the relevant Health Board. The complainant was offered a Welsh speaking therapist and the availability of a Welsh service was ensured from then on.



## Dweud eich dweud

Dim gwasanaeth Cymraeg?  
Anfodlon â'r gwasanaeth  
Cymraeg a gawsoch?

Am gyngor ynghylch eich hawl i gwyno  
am gorff cyhoeddus a sut i wneud hynny,  
cysylltwch â:

Bwrdd yr Iaith Gymraeg,  
Siambrau'r Farchnad,  
5-7 Heol Eglwys Fair,  
Caerdydd, CF10 1AT

029 2087 8000 [post@byig-wlb.org.uk](mailto:post@byig-wlb.org.uk)  
[byig-wlb.org.uk](http://byig-wlb.org.uk)

## Have your say

No Welsh language service?  
Dissatisfied with the  
Welsh service?

For advice about your right to complain  
about a public organisation and how to  
do so, contact:

Welsh Language Board,  
Market Chambers,  
5-7 St Mary Street,  
Cardiff, CF10 1AT



BWRDD YR IAITH  
GYMRAEG • WELSH  
LANGUAGE BOARD

Polisiau Iaith Busnes

Language Policies for Businesses

## Polisiau iaith Gymraeg i Fusnesau

Dros y deg mlynedd diwethaf mae'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector preifat wedi tyfu'n aruthrol.

Mae ymchwil a gyhoeddodd y Bwrdd yn 2009-10 yn dangos fod pobl yng Nghymru yn gynyddol yn disgwyl ymrwymiad a pharch gan fusnesau tuag at y Gymraeg.

## Language Policies for Businesses

Over the past ten years, the use of Welsh in the private sector has grown immensely.

Research published by the Board in 2009-10 shows that people in Wales increasingly expect commitment and respect from businesses towards the Welsh language.

“Mae 76% o bobl Cymru'n cytuno bod deunydd marchnata a hysbysebion dwyieithog yn bwysig.”

Arolwg Beaufort Research 21-30 Tachwedd 2008

“76% of people in Wales agree that bilingual marketing materials and adverts are important.”

Beaufort Research Survey 21-30 November 2008



Dull ymarferol i fusnesau fynd ati i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg yw llunio polisi iaith Gymraeg.

Mae hynny'n dangos beth mae busnes yn ei wneud eisoes, ac mae hefyd yn sail i gynllunio gwasanaethau Cymraeg tuag at y dyfodol. Mae polisi yn cynnig sicrwydd i staff a chwsmeriaid - gallant weld hyd a lled ymrwymiad busnes i'r iaith Gymraeg.

A practical way for businesses to set about increasing their use of the Welsh language is by drawing up a Welsh language policy.

This shows what a business is already doing, and it is also the basis for planning Welsh language services for the future. A policy offers an assurance to staff and customers – they can see the extent of a business's commitment to the Welsh language.



“Mae bancio yn wasanaeth personol iawn. Dyna pam ry'n ni'n cynnig gwasanaethau iaith Gymraeg i'n cwsmeriaid, ein canolfan alw er enghraift. Mae cael polisi iaith yn sicrhau ein bod yn cynnig yr un ddarpariaeth ar draws ein canghennau i gyd.”

Owain Glyn Saunders Jones, Barclays.

“Banking is a very personal service. That is why we offer Welsh language services to our customers, our call centre for example. Having a language policy ensures that we offer the same provision across all our branches.”

Owain Glyn Saunders Jones, Barclays.



**TESCO**

“Rydym ni yn TESCO yn llawn sylweddoli fod pobl yn hoff o siopa'n lleol a dyna pam ein bod yn sicrhau fod yna naws 'leol' i'n holl siopau. Yng Nghymru mae hyn yn naturiol yn golygu ein bod yn brandio ac yn cynnig gwasanaethau yn y Gymraeg.”

Enfys Fox, TESCO.

“We in TESCO fully realise that people like to shop locally and that is why we ensure that there is a 'local' feel to all our shops. In Wales, this naturally means that we brand and offer services in Welsh.”

Enfys Fox, TESCO.



## Cefnogi'r Gymraeg Investing in Welsh



“Mae cefnogaeth Bwrdd yr iaith Gymraeg i lunio polisi iaith wedi'n cynorthwyo i gryfhau ein defnydd o'r Gymraeg, gan wneud hynny i gyfoethogi profiad ein hymwelwyr rhyngwladol â Llangollen.”

Mervyn Cousins, Eisteddfod Ryngwladol Llangollen.


“The support of the Welsh Language Board in drawing up a language policy has helped and strengthened our use of the Welsh language, and this has been done to enrich the experiences of our international visitors to Llangollen.”

Mervyn Cousins, Llangollen International Eisteddfod .

Ers i'r Bwrdd lansio'r templed polisi iaith yn niwedd 2008, mae busnesau wedi bod yn awyddus iawn i fabwysiadu polisi, ac mae'r brwd frydedd yn tyfu o flwyddyn i flwyddyn.

Since the Board launched a language policy template at the end of 2008, businesses have been very keen to adopt a policy, and the enthusiasm is growing from year to year.

### Polisiau iaith



Mae dros 230 o fusnesau eraill wedi ymrwymo i ddatblygu polisi iaith yn y dyfodol trwy arwyddo i gynllun Cefnogi'r Gymraeg y Bwrdd.

More than 230 other businesses have committed themselves to develop a language policy in the future by signing up to the Board's Investing in Welsh scheme.

## Adnabod siaradwyr Cymraeg

Mae'r Bwrdd eisiau ei gwneud hi'n haws adnabod pwy sy'n medru siarad Cymraeg, er mwyn i bobl fedru defnyddio'r iaith yn hyderus o'r cychwyn cyntaf ym mhob agwedd ar fywyd.

Mae bathodyn iaith Gwaith yn dangos pwy sy'n medru siarad Cymraeg, ac mae'r Bwrdd am i bawb yng Nghymru ddod yn gyfarwydd ag ef.

## Identifying Welsh speakers

The Board wants to make it easier to identify people who can speak Welsh, so that people can use the language confidently from the beginning in all aspects of life.

The Iaith Gwaith (Working Welsh) badge shows who can speak Welsh, and the Board wants everyone in Wales to become familiar with it.



Ymwelodd Taith Iaith Gwaith â chanolfannau siopau ac archfarchnadoedd ym mhob cwr o Gymru ym mis Tachwedd 2009. Roedd y bathodynnau oren enfawr ar y daith yn ffordd syml o sicrhau bod mwy o bobl yn dod i wybod am ystyr y symbol a'r bathodyn.

The Taith Iaith Gwaith (Working Welsh Tour) visited shopping centres and supermarkets in all parts of Wales in November 2009. The huge orange badges on the tour were a simple way of ensuring that more people got to know the meaning of the symbol and the badge.





## Addysg Gymraeg

### Cynlluniau Addysg Gymraeg

Mae dros ddeg mlynedd bellach ers i'r Bwrdd gymeradwyo'r Cynllun Addysg Gymraeg cyntaf. Erbyn hyn mae gan 16 o Awdurdodau ail Gynllun Addysg Gymraeg, gyda thri Awdurdod arall wedi ymgynghori yn gyhoeddus ar eu Cynlluniau.

## Welsh Education

### Welsh Education Schemes

More than ten years have passed since the Board approved the first Welsh Education Scheme. By now, 16 Authorities have a second Welsh Education Scheme, with three other Authorities having consulted publicly on their Schemes.



Yn ystod 2009-10 daeth ail Gynllun Addysg Gymraeg nifer o Awdurdodau i ben. Mewn ymateb i hyn, mae'r Bwrdd wedi mynd ati i lunio Canllawiau newydd ar gyfer llunio Cynlluniau Addysg Gymraeg.

During 2009-10 the second Welsh Education Scheme of a number of Authorities came to an end. In response to this, the Board has drawn up new Guidelines for creating Welsh Education Schemes.

#### **Mae'r Canllawiau yn cyflwyno newidiadau sylfaenol:**

- (i) maent yn Gynlluniau llawer mwy thematig**
- (ii) cylch o dair blynedd fydd i'r drydedd genhedlaeth o Gynlluniau.**

#### **The guidelines introduce fundamental changes:**

- (i) the Schemes will be much more thematic**
- (ii) the third generation of Schemes will have a three-year cycle.**

## Mesur y galw am addysg Gymraeg

Yn y Strategaeth Addysg Gymraeg a gyhoeddwyd yn ystod 2009-10, mae'r Llywodraeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol ystyried y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau fod y ddarpariaeth yn cyd-fynd â'r galw cynyddol. Ffordd effeithiol o gynllunio'r llefydd hyn yw trwy anfon holiadur at rieni yn gofyn a ydynt yn dymuno addysg Gymraeg i'w plant.

## Measuring the demand for Welsh-medium Education

In the Welsh-medium Education Strategy published during 2009-10, the Government makes it compulsory for Local Authorities to consider the demand for Welsh-medium provision in order to ensure that the provision matches the increasing demand. An effective way of planning these places is to send a questionnaire to parents asking whether they wish their children to receive Welsh-medium education.



**Dwyieithog –  
gair mawr  
mantais fawr**

**Bilingual –  
it's a big word  
it's a big plus**

Lluniodd y Bwrdd Ddogfen Arferion Da i Awdurdodau Lleol ei dilyn wrth gynllunio i fesur y galw. Mae'r ddogfen yn ganllaw ymarferol sy'n cynnwys llawer o ystyriaethau pwysig, er enghrafft pa bryd yw'r amser gorau i ryddhau holiaduron.

The Board has created a Good Practices Document for Local Authorities to follow when planning to measure the demand. The document is a practical guideline which includes many important considerations, for example, when is the best time to release questionnaires.

## Prosiect Dilyniant

Dyma drydedd blwyddyn y Prosiect i Wella Dilyniant mewn Addysg Gymraeg. Nod y prosiect yw cynyddu niferoedd y disgyblion sy'n parhau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg wrth symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae'r prosiect ar waith mewn sawl sir ar draws Cymru.

Fel rhan o'r prosiect eleni, trefnwyd cyrsiau hyfforddiant i athrawon cynradd er mwyn iddynt allu trafod cyfrwng iaith astudio gyda rhieni a disgyblion, a chyrsiau hyfforddiant addysgu dwyieithog i athrawon uwchradd.

## Progression Project

This is the third year of the Welsh-medium Education Progression Project. The aim of the project is to increase the number of pupils continuing to study through the medium of Welsh when moving from the primary school to secondary school. The project is operating in several counties across Wales.

As part of the project this year, training courses were arranged for primary teachers so that they could discuss the language of education with parents and pupils, and bilingual teaching training courses for secondary teachers.



Dal i ddysgu yn Gymraeg

Keep on learning in Welsh

[byig-wlb.org.uk](http://byig-wlb.org.uk)

## Prosiect Addysg Drochi

Mae'r prosiect yma'n rhoi cyfle i ddisgyblion o gartrefi di-Gymraeg i ddod yn rhugl yn y Gymraeg ac i ddilyn eu haddysg uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg.

O ganlyniad i'r prosiect, trosglwyddodd ychydig dros 200 o ddisgyblion i ddilyn addysg cyfrwng Cymraeg ym mlwyddyn 7 ym mis Medi 2009.

## Education Immersion Project

This project gives pupils from non-Welsh speaking families the opportunity to become fluent in Welsh and to follow their secondary education through the medium of Welsh.

As a result of the project, something over 200 pupils transferred to follow Welsh-medium education in year 7 in September 2009.

**Mae 1,000 o ddisgyblion wedi bod yn rhan o'r prosiect ers ei gychwyn a chynigwyd hyfforddiant penodol i tua 60 o athrawon pwnc.**

**1,000 pupils have been part of the project since it began and specific training has been offered to around 60 subject teachers.**

## Llinell Cefnogi Gwaith Cartref

Mae'r Llinell Cefnogi Gwaith Cartref yn adnodd defnyddiol i unrhyw ddisgybl sy'n dilyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Os nad yw'r disgybl na'i rieni yn deall gair neu frawddeg mewn cwestiwn gwaith cartref, gall gysylltu â'r Llinell Cefnogi Gwaith Cartref. Gall yr ymgynghorwyr ar ben arall y ffôn roi cymorth gyda geirfa, termau a chyfeirio at lyfrau a gwefannau Cymraeg perthnasol.

## Homework Support Line

The Homework Support Line is a useful resource for any pupil following education through the medium of Welsh. If neither a pupil nor parent can understand a word or a sentence in a homework question, then they can contact the Homework Support Line. The advisers on the other end of the phone can provide assistance with vocabulary and terms and can refer callers to relevant Welsh books and websites.



Yn ystod y flwyddyn, gweithiodd y Bwrdd gyda disgyblion Ysgol Gynradd Cwm Garw ac Ysgol Uwchradd Llangynwyd, Pen-y-bont ar Ogwr, i greu animeiddiad er mwyn hyrwyddo gwasanaeth y Llinell. Bydd modd anfon yr animeiddiadau fel neges destun o ffôn i ffôn.

During the year, the Board worked with pupils in Ysgol Cwm Garw and Ysgol Llangynwyd, Bridgend, to create an animation promoting the Line's service. It will be possible for pupils to send the animations as a text message from phone to phone.



Cefnogi Gwaith Cartref



Welsh Homework Support

0871 230 0029      0779 780 5607


[post@gwaithcartref.com](mailto:post@gwaithcartref.com) [post@homeworkinwelsh.com](mailto:post@homeworkinwelsh.com)  
Sul – Gwener 3.00pm – 9.00pm Sunday – Friday

## MELT

Bu Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn rhan o gais prosiect Ewropeaidd llwyddiannus. Mae'r Prosiect Trosglwyddiad Iaith Gynnar Amlieithog (Multilingual Early Language Transmission - MELT) yn bartneriaeth rhwng pedair cymuned ieithyddol - Llydaweg yn Llydaw, yr iaith Ffrisiaeg yn Friesland, y gymuned iaith Swedeg yn y Ffindir, a'r iaith Gymraeg yng Nghymru. Cyllidir y Prosiect gan y Comisiwn Ewropeaidd, a bydd yn rhedeg rhwng 1 Tachwedd 2009 a 31 Hydref 2011.

## MELT

The Welsh Language Board was part of a successful European project bid. The Multilingual Early Language Transmission - MELT project is a partnership between four linguistic communities – Breton in Brittany, the Frisian language in Friesland, the Swedish language community in Finland and the Welsh language in Wales. The project is funded by the European Commission, and it will run between 1 November 2009 and 31 October 2011.





## Twf

Mae siarad dwy iaith yn:

- rhoi plentyn ar y blaen wrth ddysgu darllen a chyfri
- cyfoethogi hunaniaeth Gymreig y plentyn
- ymestyn eu cylch ffrindiau a'u cyfleoedd cymdeithasol
- rhoi cyfle gwell iddyn nhw gael swydd pan fyddan nhw'n hŷn
- gwella sgiliau cyfathrebu a'i gwneud hi'n haws dysgu ieithoedd eraill
- cynyddu eu gwerthfawrogiad o ddwy iaith a diwylliant Cymru
- cynyddu eu gwerthfawrogiad o ddiwylliannau ac ieithoedd eraill

## Twf

Speaking two languages:

- gives a child a head start when learning to read and count
- enriches the child's Welsh identity
- expands their circle of friends and social opportunities
- gives them a better chance of getting a job when they're older
- improves communication skills and makes it easier to learn other languages
- increases their appreciation of the two languages and culture of Wales
- increases their appreciation of other languages and cultures



Er mwyn lledaenu'r neges am werth y Gymraeg o'r crud, mae swyddogion Twf ledled Cymru'n cwrdd â darpar rieni a rhieni newydd, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd.

To spread the message about the value of 2 languages from day 1, Twf officers across Wales meet prospective parents and new parents, midwives and health visitors.

#### **Yn ystod 2009-10:**

- Cynhaliwyd 12,362 o sgyrsiau un wrth un gyda rhieni
- Cynhaliwyd sgyrsiau gyda 94% o holl fydwragedd ac ymwelwyr iechyd gwledig Cymru
- Cynhaliwyd cyflwyniad ar fanteision y Gymraeg i 113 o fyfyrwyr sy'n dilyn cwrs i fod yn fydwragedd/ymwelwyr iechyd yng Nghymru gan sicrhau fod pob myfyriwr yn cael clywed am negeseuon Twf.
- Mynychodd 2,093 o rieni sesiynau Amser Twf sy'n yn rhoi gwybodaeth i rieni am lyfrau/CDs/DVDs Cymraeg yn ogystal â dysgu hwiangerddi newydd ac ymarfer sgwrsio yn Gymraeg gyda rhieni lleol eraill. Nododd 92% o'r rhieni a lenwodd holiadur fod y sesiwn wedi bod yn bwysig wrth newid/atgyfnerthu eu penderfyniad am bwysigrwydd trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref.

#### **During 2009-10:**

- 12,362 one to one conversations were held with parents
- Conversations were held with 94% of all rural midwives and health visitors in Wales
- A presentation was given on the advantages of the Welsh language to 113 students following a course to become midwives/health visitors in Wales ensuring that every student in Wales heard about the messages of Twf.
- 2,093 parents attended Amser Twf sessions which provide information to parents about Welsh books/CDs/DVDs as well as learning new nursery rhymes and practising conversations in Welsh with other local parents. 92% of the parents who completed a questionnaire noted that the session had been important in changing/strengthening their decision about the importance of transferring Welsh within in the family.

## Marchnata Twf

Mae Twf wedi datblygu cerdyn i ddarpar rieni gadw llun sgan o'u babi sy'n arddangos manteision siarad Cymraeg. Mae pob uned sgan yng Nghymru bellach yn defnyddio cerdyn sgan Twf.

## Twf Marketing

Twf has developed a card for expectant parents to keep a photo of their baby's scan, stating the advantages of speaking Welsh. Every scanning unit in Wales now uses the Twf scan card.



Ymddangosodd hysbyseb Twf – 'Y Gymraeg – anrheg am byth' ar S4C ac ITV yn ystod mis Rhagfyr 2009, ac eto ar ITV ym mis Mawrth 2010.

Darlledwyd hysbyseb radio Twf ar Real Radio yn Ne a Gorllewin Cymru ac ar Heart yng Ngogledd Cymru yn ystod mis Rhagfyr 2009.

The Twf advert – 'Y Gymraeg – anrheg am byth' (Welsh – a gift for life) appeared on S4C and ITV during December 2009, and again on ITV in March 2010.

The Twf radio advert was broadcast on Real Radio in South and West Wales and on Heart in North Wales during December 2009.

Dosbarthwyd bocsys o nwyddau marchnata Twf mewn pum siop Boots a chasglwyd 700 o enwau ar gyfer cronfa ddata Twf.

Anfonwyd 33,000 o fibiau Twf at famau newydd yng Nghymru trwy fas data Bounty, y darparwyr gwybodaeth i rieni newydd.

Boxes of Twf marketing materials were distributed in five Boots shops and 700 names were collected for the Twf database.

33,000 Twf bibs were sent to new mothers in Wales through the database of Bounty, the information providers to new parents.

### Canlyniadau Arolwg Twf (Mawrth 2010)

Mewn ymateb i holiadur a atebodd 850, nododd mamau fod:

- **98% ohonynt oedd wedi derbyn cerdyn sgan Twf yn falch o'i chael.**
- **95% ohonynt oedd wedi derbyn bib Twf yn falch o'i gael.**
- **95% ohonynt oedd wedi derbyn cofnod mamolaeth Twf yn falch o'i gael.**

### Results of the Twf Survey (March 2010)

The findings of a questionnaire responded to by 850 mothers, showed that:

- **98% of those who received the Twf scan card were pleased to have it.**
- **95% of those who received the Twf bib were pleased to have it.**
- **95% of those who received the Twf maternity record were pleased to have it.**

## Hyder i siarad Cymraeg

Mae rhai rhieni yn awyddus i siarad Cymraeg gyda'u plant, ond heb hyder i wneud hynny.

Mae'r prosiect Mae Dy Gymraeg Di'n Grêt yn rhoi cyfle i rieni a gofalwyr plant o dan 5 oed i ddod at ei gilydd a chymdeithasu yn y Gymraeg.

Cynhaliwyd y prosiect mewn 10 ardal yn ystod 2009-10, ac arweiniodd y sesiynau hyn yn uniongyrchol at sefydlu grŵp Ti a Fi yn ardal Aman Tawe, er mwyn i'r cymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg barhau.

## Confidence to speak Welsh

Some parents are keen to speak Welsh with their children, but lack the confidence to do so.

The 'Mae Dy Gymraeg Di'n Grêt' (Your Welsh is Great) project gives the parents and carers of children under 5 years old an opportunity to get together and socialise in Welsh.

The project was held in 10 areas during 2009-10, and these sessions led directly to setting up a Ti a Fi group in the Aman Tawe area, so that the socialising through the medium of Welsh could continue.



## Cyflwyno'r iaith i fevnfudwyr

Mae nifer o deuluoedd yn mewnfudo i Gymru. Trefnodd y Bwrdd, mewn cydweithrediad â'r Menteriau Iaith a'r Canolfannau Hwyrddydodiaid, gyrsiau i gynyddu dealltwriaeth y teuluoedd hyn o Gymru a'r iaith Gymraeg.

## Cynlluniau Gweithredu Iaith

Mae gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg 10 o swyddogion Cynlluniau Gweithredu Iaith yn gweithio mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol arbennig. Nod y swyddogion hyn yw dylanwadu ar asiantaethau sy'n weithredol yn y gymuned er mwyn prif ffrydio'r Gymraeg i'w gwaith.

## Introducing the language to immigrants

A number of families move into Wales. The Board, in collaboration with the Menteriau Iaith and the Latecomers Centres, arranged courses to increase these families' understanding of Wales and the Welsh language.

## Language Action Plans

The Welsh Language Board has 10 Language Action Plan officers working in areas of special linguistic significance. The aim of these officers is to influence the agencies operating in the community to mainstream the Welsh language into their work.

## **Yn y Gymuned**

Un o elfennau pwysicaf gwaith y Bwrdd yw'r gwaith a wnaon gyda'n partneriaid cymunedol ar hyd a lled Cymru.

## **In the Community**

One of the most important elements of the Board's work is the work we do with our community partners across Wales.



Bydd y Bwrdd yn cwrdd â'r partneriaid yn rheolaidd ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a hefyd trwy fforymau sirol.

The Board meets the partners regularly at national and regional level, and also through county forums.

Sefydliadau a grwpiau yw'r rhain sy'n cynnal breichiau'r diwylliant Cymraeg ac sy'n creu bwrlwm yn yr iaith, ac mae'n bleser gan y Bwrdd roi cymorth ariannol ac ymarferol i'w cefnogi gyda'u gwaith.

These are the organisations and groups supporting the Welsh culture and creating excitement in the language, and the Board is pleased to grant financial and practical support to help them with their work.



## Ieuenctid

### Prosiect Cefnogi Arferion Iaith

Trwy'r prosiect hwn mae disgyblion hŷn mewn ysgolion yn trefnu gweithgareddau hwyliog trwy gyfrwng y Gymraeg i'r disgyblion iau.

Mae'r gweithgareddau wedi arwain at sefydlu bandiau cerddoriaeth a gorsafoedd radio mewn ysgolion, yn ogystal â llu o weithgareddau eraill sy'n ymestyn o chwaraeon i adloniant ysgafn. Y nod yw creu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc gymdeithasu trwy gyfrwng yr iaith, fel bod siarad Cymraeg â'i gilydd yn fater o ddewis.

Cafodd gweithgareddau eu hymestyn i 21 ysgol uwchradd ar draws y De-orllewin a'r De-ddwyrain eleni. Ar draws y ddau ranbarth, mynchodd oddeutu 200 o ddisgyblion chweched dosbarth ddau ddiwrnod hyfforddiant a drefnwyd gan y Bwrdd.

## Youth

### Language Practices' Support Project

Through this project older pupils in schools arrange fun activities through the medium of Welsh for the younger pupils.

The activities have led to creating music bands and radio stations in schools, as well as a host of other activities ranging from sports to light entertainment. The aim is to create more opportunities for young people to socialise through the medium of Welsh, so that they choose to speak it with each other.

Activities were extended to 21 secondary schools across South West and South East Wales this year. Across the two regions, approximately 200 sixth form pupils attended two days of training arranged by the Board.

**Amcangyfrifir bod dros 1,000 o ddisgyblion wedi cael cyfle i gyfrannu neu gymryd rhan mewn gweithgareddau hybu Cymreictod yn yr ysgolion o ganlyniad i'r prosiect hwn.**

**It is estimated that over 1,000 pupils have had the opportunity to contribute or take part in activities to promote Welsh in the schools as a result of this project.**

“Mae'r prosiect yma wedi dangos i ni fod Cymraeg yn gallu bod yn hwyl, ac nid yn unig cyfrwng dysgu yw hi.”

“This project has shown us that Welsh can be fun, and that it is not just a learning medium.”



“Mae blwyddyn 7 nawr yn stopio fi yn y corridor ac yn siarad am y gweithgareddau y buon nhw'n rhan ohono, ac yn gofyn i fi pa bryd fydd y clwb nesaf.”

“Year 7 now stop me on the corridor and talk about the activities they have taken part in, and ask when the club will meet next.”



## Taith Ysgolion

Mewn cydweithrediad â Radio Cymru a CIWDOD trefnwyd taith gerddoriaeth gyfoes o amgylch ysgolion Cymru. Ymwelodd y daith â 36 o ysgolion uwchradd er mwyn rhoi blas ar gerddoriaeth gyfoes Gymraeg i ddisgyblion, a'u rhoi ar ben ffordd i ddechrau bandiau a chynhyrchu cerddoriaeth eu hunain. Elfen newydd o'r daith eleni fu cynnal gigs cymunedol ar ddiwedd yr wythnos ym mhob rhanbarth, mewn partneriaeth â'r Mentrau laith lleol.

## Schools Tour

In collaboration with Radio Cymru and CIWDOD a contemporary music tour was organised in schools around Wales. The tour visited 36 secondary schools to give pupils a taste of modern Welsh music, and to show them how to set up bands and produce their own music. A new element of the tour this year was community gigs at the end of the week in every region, in partnership with the local Mentrau laith.



The Language at Work, Online and Internationally

Yr iaith ar Waith, Ar-lein ac yn Rhyngwladol

## Technoleg

Cydweithiodd y Bwrdd gyda Microsoft er mwyn creu pecynnau rhyngwyneb iaith Cymraeg yn rhad ac am ddim i Microsoft Windows 7 a Microsoft SharePoint .

Cafodd y ffôn symudol Cymraeg cyntaf erioed ei lansio ar stondin y Bwrdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala yn 2009. Datblygwyd y ffôn o ganlyniad i bartneriaeth rhwng Orange a Samsung.

## Technology

The Board worked with Microsoft to create free Welsh language interface packs for Microsoft Windows 7 and Microsoft SharePoint.

The first ever Welsh language mobile phone was launched on the Board's stall at the 2009 National Eisteddfod in Bala. The phone was developed as the result of a partnership between Orange and Samsung.



## Terminoleg a Chyfieithu

Safonwyd termau ffonau symudol a diweddarwyd termau trefniadaeth.

Cydweithiodd y Bwrdd â Google ar eu cyfleusterau cyfieithu peirianyddol a chof cyfieithu.

Derbyniwyd y nifer uchaf erioed o ymholiadau i'r Llinell Gyswllt â'r Gymraeg.


## Terminology and Translation

The Board standardised mobile phone terminology and updated procedural terminology.

The Board worked with Google on their machine translation and translation memory facilities.

The LinkLine to Welsh received the highest ever number of enquiries.

## Nifer o alwadau i'r Llinell Gyswllt



## Ymchwil a Data

Cynorthwyodd y Bwrdd Lywodraeth y Cynulliad a darparu arbenigedd wrth lunio'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a'r Strategaeth Iaith Gymraeg.

Ariannodd y Bwrdd ddwy ysgoloriaeth ddoethuriaeth ar gynllunio ieithyddol yn 2009-10.

Rhyddhaodd y Bwrdd ystadegau Arolwg Omnibws Beaufort.

## Research and Data

The Board assisted the Assembly Government and provided expertise with drafting the Welsh-medium Education Strategy and the Welsh Language Strategy.

The Board funded two doctoral studentships on language planning in 2009-10.

The Board released the statistics of the Beaufort Omnibus

Roedd yr ystadegau'n dangos agweddau pobl tuag at y Gymraeg, yn arbennig yn y sector preifat ac wrth drosglwyddo'r iaith i'r cenedlaethau nesaf.

## Cydweithio â chymunedau ieithyddol eraill ar draws Ewrop

Mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn gyfrifol am gydlyn a chadeirio'r Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth leithyddol (NPLD). Rhwydwaith yw hwn i rannu arferion da ym maes cynllunio ieithyddol ar draws Ewrop, a chaiff ei ariannu'n rhannol gan y Comisiwn Ewropeaidd.

Survey. The statistics showed people's attitudes towards the Welsh language, especially in the private sector and in transferring the language to the next generations.

## Collaborating with other linguistic communities across Europe

The Board continues to be responsible for co-ordinating and chairing the Network to Promote Linguistic Diversity (NPLD). This is a network for sharing good practice in language planning across Europe, and it is partly funded by the European Commission.

### Mae aelodau'r Rhwydwaith yn cynnwys y canlynol:

- Bwrdd yr iaith Gymraeg, Cymru
- Kuzul Rannvroel Breizh/Conseil Régional de Bretagne, Llydaw
- Adran Cymunedau, Materion Gwledig a Gaeltacht/Foras na Gaeilge, Iwerddon
- Adran Polisi iaith, a Gweinyddiaeth Addysg ac Ymchwil, Estonia
- Xunta de Galicia, Galicia
- Provincie Fryslân, Friesland
- Linguamón/ Secretaría de Política Lingüística, Catalonia
- Bord na Gàidhlig, Yr Alban
- Kultura Saila, Eusko Jaurlaritza/Departamento de Cultura, Llywodraeth Gwlad y Basg
- Folktinget, Y Ffindir

### The Network's membership includes the following:

- The Welsh Language Board, Wales
- Kuzul Rannvroel Breizh/Conseil Régional de Bretagne, Brittany Communities, Rural Affairs Department and Gaeltacht/Foras na Gaeilge, Ireland
- Language Policy Department, and Education Administration and Research, Estonia
- Xunta de Galicia, Galicia
- Provincie Fryslân, Friesland
- Linguamón/ Secretaría de Política Lingüística, Catalonia
- Bòrd na Gàidhlig, Scotland
- Kultura Saila, Eusko Jaurlaritza/ Departamento de Cultura, Government of the Basque Country
- Folktinget, Finland



# Datganiad Ariannol Cryno am y flwyddyn i 31 Mawrth 2010

## Summary Financial Statement for the year to 31 March 2010

Nid yw'r datganiad ariannol cryno hwn yn cynnwys digon o wybodaeth ar gyfer deall canlyniadau'r Bwrdd am y cyfnod neu ei sefyllfa ar ddiwedd y cyfnod. Os am ragor o wybodaeth dylid cysylltu â swyddfa'r Bwrdd am gopi rhad ac am ddim o'r cyfrifon archwiliadig llawn (Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon 2009-10)

### Cefndir Statudol

Sefydlwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar 21 Rhagfyr 1993.

### Aelodau'r Bwrdd

Ceir rhestr o'r aelodau a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ar dudalen 4. Ceir manylion eu cyflogau yn y cyfrifon archwiliadig llawn. Cyfanswm tâl yr aelodau am y flwyddyn oedd £103,000 (2008-09 £103,000).

### Y Tîm Rheoli

Y Tîm Rheoli sy'n gyfrifol am waith rheoli gweithredol y Bwrdd o ddydd i ddydd. Enwir aelodau'r Tîm a manylion cyflogau'r Tîm Rheoli yn y cyfrifon archwiliadig llawn. Cyfanswm tâl y Tîm Rheoli am y flwyddyn oedd £526,809 (2008-09 £515,390 ).

### Canlyniadau a chyfeddiant

Corff cyhoeddus yw Bwrdd yr Iaith Gymraeg a noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cyfanswm y cymorth grant ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2009 hyd at 31 Mawrth 2010 oedd £13,653,000. O'r cyfanswm hwn, bwriadwyd £100,000 ar gyfer gwariant cyfalaf. Credydwyd cyfanswm y cymorth grant i'r gronfa gyffredinol yn unol â'r canllawiau diwygiedig yn *Financial Reporting Manual*. Y gwariant net yn ystod y flwyddyn oedd £13,781,000 (2008-09; £13,512,000). Ar 31 Mawrth 2010 roedd y gronfa gyffredinol yn £596,000 (2008-09: £701,000).

This summary financial statement does not contain sufficient information to allow for a full understanding of the results of the Board for the period or its state of affairs at the end of the period. For further information, contact the Board's office for a free copy of the full audited accounts (Annual Report and Accounts 2009-10).

### Statutory background

The 1993 Welsh Language Act established the Welsh Language Board on 21 December 1993.

### Board Members

A list of the Board Members who served during the year is available on page 4. Details of their remuneration are included in the full audited accounts. Total Board Members remuneration for the year was £103,000 (2008-09 £103,000).

### Management Team

The day-to-day executive management of the Board is conducted by the Management Team. Details of the members of the team and their salaries are included in the full audited accounts. Total Management team remuneration for the year was £526,809 (2008-09 £515,390).

### Results and appropriations

The Welsh Language Board is a public body sponsored by the Welsh Assembly Government. Total grant in aid for the year 1 April 2009 to 31 March 2010 was £13,653,000. Of this amount, £100,000 was intended for capital expenditure. The total grant in aid was credited to the general fund in line with the revised guidance in the Financial Reporting Manual. The net expenditure for the year was £13,781,000 (2008-09; £13,512,000). At 31 March 2010 the general reserve was £596,000 (2008-09: £701,000).

# Cyfrif Gwariant Net am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010

## Net Expenditure Account for the year to 31 March 2010

	2009-10	2008-09	
	£000	£000	£000
<b>Gwariant</b>			<b>Expenditure</b>
Grantiau	<b>7,522</b>	7,423	Grants
Gwariant rhagleni eraill	<b>2,565</b>	2,520	Other programme expenditure
Costau staff	<b>3,374</b>	3,199	Staff costs
Gweinyddu	<b>897</b>	890	Administration
Dibrisiant ac amorteiddiad	<b>128</b>	127	Depreciation and amortisation
	<b>14,486</b>	14,159	
<b>Incwm</b>	<b>(728)</b>	<b>(674)</b>	<b>Income</b>
	<b>(728)</b>	<b>(674)</b>	
<b>Gwariant Net</b>	<b>13,758</b>	13,485	<b>Net Expenditure</b>
Llog tybiedig ar gyfalaf	<b>23</b>	27	Notional interest on capital
Llog a dderbyniwyd	<b>(1)</b>	(15)	Interest receivable
Llog a ildiwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru	<b>1</b>	15	Interest surrendered to the Welsh Assembly Government
	<b>23</b>	27	
<b>Gwariant Net ar ôl cost a thâl cyfalaf a llog</b>	<b>13,781</b>	13,512	<b>Net Expenditure after cost of capital charge and interest</b>

# Datganiad Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2010

## Statement of Financial Position at 31 March 2010

	2010	2009	
	£000	£000	£000
<b>Asedion nad ydynt yn gyfredol</b>			<b>Non-current Assets</b>
Asedion anghyffyrddadwy	<b>29</b>	35	Intangible assets
Eiddo, offer a pheiriannau	<b>251</b>	295	Property, plant & equipment
<b>Cyfanswm Asedion nad ydynt yn Gyfredol</b>	<b>280</b>	330	<b>Total Non-current Assets</b>
<b>Asedion Cyfredol</b>			<b>Current Assets</b>
Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy	360	509	Trade and other receivables
Arian parod ac arian cyfwerth	<b>115</b>	-	Cash and cash equivalents
<b>Cyfanswm Asedion Cyfredol</b>	<b>475</b>	509	<b>Total Current Assets</b>
<b>Cyfanswm Asedion</b>	<b>755</b>	839	<b>Total Assets</b>
<b>Rhwymedigaethau Cyfredol</b>			<b>Current Liabilities</b>
Gor ddrafft	-	(13)	Overdraft
Masnach a symiau eraill sy'n daliadwy	<b>(154)</b>	(121)	Trade & other payables
<b>Cyfanswm Rhwymedigaethau Cyfredol</b>	<b>(154)</b>	(134)	<b>Total Current Liabilities</b>
<b>Cyfanswm Asedion nad ydynt yn Gyfredol ac Asedion Cyfredol Net</b>	<b>601</b>	705	<b>Non-current Assets plus Net Current Assets</b>
<b>Rhwymedigaethau nad ydynt yn Gyfredol</b>			<b>Non-current Liabilities</b>
Darpariaethau	<b>(5)</b>	(4)	Provisions
<b>Asedion llai Rhwymedigaethau</b>	<b>596</b>	701	<b>Assets less Liabilities</b>
<b>Ariannwyd Gan:</b>			<b>Financed By:</b>
<b>Cronfeydd</b>			<b>Reserves</b>
Cronfa gyffredinol	<b>596</b>	701	General reserve
	<b>596</b>	701	

# Nodiadau i'r Datganiad Ariannol Cryno am y flwyddyn i 31 Mawrth 2010

## Notes to the Summary Financial Statement for the year to 31 March 2010

### Nodyn 1. Sail Cyfrifo

Lluniwyd y datganiad ariannol cryno yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol, wrth gyfeirio at y Ddeddf Gwmniau 1985, 2009-10 *Financial Reporting Manual* (FReM) a'r Cyfarwyddiadau Cwmniau 1995 - O.S. 1995/2092, gyda chyfarwyddiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yr oedd dystysgrif yr archwilydd ar y datganiadau ariannol llawn am y flwyddyn i 31 Mawrth 2010 a barn diamed.

### Note 1. Accounting Conventions

The summary financial statement has been prepared under the historical cost convention, with reference to The Companies Act 1985, 2009-10 Financial Reporting Manual (FReM) and The Companies Regulations 1995 - SI 1995/2092, and complies with the directions given by the Welsh Assembly Government. The auditor's certificate on the full financial statements for the year ended 31 March 2010 was unqualified.

**Meirion Prys Jones**

**Swyddog Cyfrifo**

**Bwrdd yr Iaith Gymraeg**

24 Mehefin 2010

**Meirion Prys Jones**

**Accounting Officer**

**Welsh Language Board**

24 June 2010

# Datganiad Ariannol Cryno am y flwyddyn i 31 Mawrth 2010

## Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y Datganiadau Ariannol Cryno

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol cryno sydd yn yr Adolygiad Blynnyddol o ddatganiadau ariannol statudol Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar dudalennau 60 i 63.

### Priod gyfrifoldebau'r Bwrdd, y Prif Weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cyfrifoldeb y Bwrdd a'r Prif Weithredwr yw paratoi'r Adolygiad Blynnyddol. Fy nghyfrifoldeb i'w adrodd fy marn ar gysondeb y datganiadau ariannol cryno a'r datganiadau ariannol statudol, Adroddiad yr Aelodau, Sylwadaeth Rheoli a'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth. Rwyf hefyd yn darllen yr wybodaeth arall yn yr adolygiad blynnyddol ac yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os deuaf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysondebau perthnasol yn y datganiadau ariannol cryno.

Cyfrifoldeb y Bwrdd a'r Prif Weithredwr yw cynhaliaeth a chywirdeb gwefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg; nid yw'r gwaith a wna'r archwilwyr yn cynnwys ystyriaeth o'r materion hyn ac felly nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau i'r datganiad ariannol cryno a gymerwyd lle ers iddynt gael eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

### Sail y farn

Rwyf wedi cynnal fy ngwaith yn unol â Bwletin 2008/03 - 'Datganiad yr archwilwyr ar y datganiad ariannol cryno' a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio i'w ddefnyddio yn y Deyrnas Unedig.

# Summary Financial Statement for the year to 31 March 2010

## Report of the Auditor General for Wales to the National Assembly for Wales on the Summary Financial Statements

I have examined the summary financial statements contained in the Annual Review of the Welsh Language Board's statutory financial statements set out on pages 60 to 63.

### Respective responsibilities of the Board, the Chief Executive and Auditor General for Wales

The Board and the Chief Executive is responsible for preparing the Annual Review. My responsibility is to report my opinion on the consistency of the summary financial statements with the statutory financial statements, the Board Members' Report, Management Commentary and the Remuneration Report. I also read the other information in the annual review and consider the implications for my report if I become aware of any apparent misstatements or material inconsistencies with the summary financial statements.

The maintenance and integrity of the Welsh Language Board's website is the responsibility of the Board and the Chief Executive; the work carried out by the auditors does not involve consideration of these matters and accordingly the auditors accept no responsibility for any changes that may have occurred to the summary financial statement since they were initially presented on the website.

### Basis of opinion

I have conducted my work in accordance with Bulletin 2008/03 - 'The auditors' statement on the summary financial statement' issued by the Auditing Practices Board for use in the United Kingdom.

**Barn**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol cryno yn gyson â datganiadau ariannol statudol, Adroddiad yr Aelodau, Sylwadaeth Rheoli a'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 ac a roddais farn ddiamond arnynt.

**Gillian Body****Archwilydd Cyffredinol Cymru**

1 Gorffennaf 2010  
Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol yr Eglwys Gadeiriol  
Caerdydd  
CF11 9LJ

**Opinion**

In my opinion the summary financial statements are consistent with the statutory financial statements, the Board Members' Report, Management Commentary and the Remuneration Report of the Welsh Language Board for the year ended 31 March 2010 on which I have provided an unqualified opinion.

**Gillian Body****Auditor General for Wales**

1 July 2010  
Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff  
CF11 9LJ

## Atodiad 1 Asesiad Perfformiad

## Annex 1 Performance Assessment

	<b>Perfformiad Performance 2008-09</b>	<b>Amcan Objective</b>	<b>Targed Target 2009-10</b>	<b>Perfformiad Performance 2009-10</b>	<b>Sylwadau Comments</b>	
<b>1</b>	<b>Cynlluniau iaith Gymraeg</b> Welsh Language Schemes					
<b>1a.</b>	43	Cymeradwyo cynlluniau iaith newydd  To approve new language schemes	77	87		
<b>1b.</b>	190	Ymateb i adroddiadau monitro ar Gynlluniau iaith Gymraeg  Respond to monitoring reports on Welsh Language Schemes	128	155		
<b>1c.</b>	30	Diwygio Cynlluniau iaith Update Language Schemes	41	46		
<b>2</b>	<b>Cynlluniau addysg Gymraeg</b> Welsh Education Schemes					
<b>2a</b>	3	Awdurdodau y mae eu hail gynlluniau wedi eu cytuno, ac wedi derbyn cymeradwyaeth lawn gan y Bwrdd rhwng 1 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2010  Authorities whose second Schemes have been agreed, and have received the Board's full approval between 1 April 2009 and 31 March 2010	6	2	Ni lwyddwyd i gyrraedd y targedau hyn yn llawn, yn bennaf am ein bod yn ddibynnol ar gydweithrediad y cyrff perthnasol, a hefyd oherwydd newidiadau staffio yn fewnol	
<b>2b</b>	3	Derbyn ac ymateb i adroddiadau monitro diwedd blwyddyn yr awdurdodau sydd yn gweithredu eu hail Gynllun Addysg Gymraeg rhwng 1 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2010  Accept, and respond to, end-year monitoring reports of authorities who are operating their second Welsh Education Scheme between 1 April 2009 and 31 March 2010	16	11	These targets were not met in full, mainly because we are dependent on the cooperation of the relevant bodies, and also due to staffing changes.	

## Atodiad 1 Asesiad Perfformiad

## Annex 1 Performance Assessment

	<b>Perfformiad Performance 2008-09</b>	<b>Amcan Objective</b>	<b>Targed Target 2009-10</b>	<b>Perfformiad Performance 2009-10</b>	<b>Sylwadau Comments</b>
<b>3.</b>	<b>Grantiau i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog</b> Grants to support bilingual and Welsh medium education				
<b>3a.</b>	159	Nifer y swyddi athrawon bro a gefnogir Number of athrawon bro posts supported	140	141.35	
<b>3b.</b>	20,000	Nifer yr ymweliadau ysgol gan athrawon bro a gefnogir Number of school visits by athrawon bro supported	26,000	26,500	
<b>3c.</b>	26	Nifer yr athrawon mewn canolfannau i hwyrrddyfodiaid a gefnogir Number of teachers in centres for latecomers supported	20	25.7	
<b>4.</b>	<b>Grantiau i hyrwyddo'r Gymraeg</b> Grants to promote the Welsh language				
<b>4a.</b>	9%	Cefnogi Mudiad Ysgolion Meithrin Support Mudiad Ysgolion Meithrin: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynyddu niferoedd y plant mewn cylchoedd Ti a Fi.</li> <li>• To increase the number of children attending Ti a Fi groups</li> </ul>	3%	Ni fydd y data ar gael hyd haf 2010 Data will not be available until summer 2010	
	32	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sefydlu cylchoedd Ti a Fi newydd.</li> <li>• To establish new Ti a Fi groups.</li> </ul>	25	31	
	26	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sefydlu Cylchoedd Meithrin newydd.</li> <li>• To establish new Nursery Groups (Cylch Meithrin).</li> </ul>	10	10	

## Atodiad 1 Asesiad Perfformiad

## Annex 1 Performance Assessment

	<b>Perfformiad Performance 2008-09</b>	<b>Amcan Objective</b>	<b>Targed Target 2009-10</b>	<b>Perfformiad Performance 2009-10</b>
<b>4b.</b>	Cynhaliwyd 21 Menter mewn 21 sir We supported 21 Mentrau laith to serve 21 Local Authority areas.	Cefnogi'r Mentrau laith Support the Mentrau laith	Cynnal 21 Menter laith i wasanaethu 21 Sir Maintain 21 Mentrau laith to operate in 21 Local Authority areas	Cyrhaeddwyd y targed  This target was achieved
<b>4c.</b>	Cyrhaeddwyd y targed ar gyfer dros 50,000 o aelodau Target was achieved for 50,000 members	Cefnogi Urdd Gobaith Cymru Support the Urdd	Cynnal amryfal weithgareddau ar gyfer dros 50,000 o aelodau. Stage a variety of events for 50,000 members.	Cyrhaeddwyd y targed  This target was achieved.
<b>4ch/d.</b>	157,000	Cefnogi Eisteddfod Genedlaethol Cymru Denu ymwelwyr i'r Wyl Support the National Eisteddfod of Wales. To attract visitors to the festival.	Denu 150,000 o ymwelwyr i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Bala Attract 150,000 visitors to the National Eisteddfod in Bala.	Cyrhaeddwyd y targed  This target was achieved.

## Atodiad 1 Asesiad Perfformiad

## Annex 1 Performance Assessment

	Perfformiad Performance 2008-09	Amcan Objective	Targed Target 2009-10	Perfformiad Performance 2009-10
5.	<b>Twf</b>			
5a.	<p>Cyrhaeddwyd y targed, gan gynnal 15,280 o gysylltiadau un i un 15,280 one-to-one contacts were held.</p> <p>Cyrhaeddwyd y targed gan gysylltu â 94% o'r bydwragedd mewn ardaloedd gwledig, a 88% o'r rhai trefol Target was achieved. 94% of midwives in rural areas were contacted, and 88% in urban areas.</p>	<p>Cynnal cynllun Twf Cyflogi swyddogion cenedlaethol a swyddogion maes</p> <p>Support the Twf project Employ national officers and field officers</p>	<p>Cynnal 12,000 o gysylltiadau un i un gyda rhieni er mwyn trosglwyddo neges Twf</p> <p>Hold 12,000 one-to-one contact sessions with parents in order to convey Twf key messages.</p> <p>Cynnal cyswllt gyda 90% o fydwragedd mewn ardaloedd gwledig y cynllun, a 50% mewn ardaloedd trefnol y cynllun</p> <p>Maintain contact with 90% of midwives in the rural areas of the scheme, and 50% of midwives in urban areas.</p>	<p>Cyrhaeddwyd y targed, gan gynnal 12,362 o gysylltiadau un i un</p> <p>Target was achieved, making 12,362 one-to-one contact sessions with parents.</p> <p>Cyrhaeddwyd y targed gan gysylltu â 94% o'r bydwragedd mewn ardaloedd gwledig, a 75% o'r rhai trefol</p> <p>Target was achieved. 94% of midwives in rural areas were contacted, and 75% in urban areas.</p>

## Atodiad 2 Grantiau ar gyfer hyrwyddo addysg

## Annex 2 Grants for the promotion of education

Sir	2010-11 £	2009-10 £	County
Wrecsam	<b>104,290</b>	104,290	Wrexham
Y Fflint	<b>114,573</b>	114,573	Flintshire
Dinbych	<b>98,168</b>	98,168	Denbighshire
Conwy	<b>116,238</b>	116,238	Conwy
Ynys Môn	<b>119,068</b>	119,068	Isle of Anglesey
Gwynedd	<b>225,687</b>	225,687	Gwynedd
Ceredigion	<b>133,139</b>	133,139	Ceredigion
Caerfyrddin	<b>181,684</b>	181,684	Carmarthenshire
Penfro	<b>168,503</b>	168,504	Pembrokeshire
Abertawe	<b>160,617</b>	160,618	Swansea
Castell Nedd Port Talbot	<b>130,309</b>	130,309	Neath Port Talbot
Pen y Bont ar Ogwr	<b>93,636</b>	93,636	Bridgend
Rhondda Cynon Taf	<b>171,666</b>	171,666	Rhondda Cynon Taf
Caerffili	<b>124,848</b>	124,848	Caerphilly
Merthyr Tydfil	<b>53,658</b>	53,658	Merthyr Tydfil
Powys	<b>257,372</b>	257,372	Powys
Caerdydd	<b>192,075</b>	192,075	Cardiff
